



# Cyflawni Buddsoddiad Cynllun Twf yn unol â chyllidebau carbon cenedlaethol a rhanbarthol: Cymru

Actor: **Uchelgais Gogledd Cymru**

Prosiect: **Lleihau Allyriadau Carbon a Gwella Bioamrywiaeth mewn Prosiectau Cynllun Twf**

Mae Uchelgais Gogledd Cymru yn bartneriaeth rhwng chwe awdurdod lleol, dwy brifysgol a dau sefydliad addysg bellach, sy'n gyfrifol am gyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru. Mae llywodraethau'r DU a Chymru wedi buddsoddi £120m yr un (cyfanswm o £240m), a gwaith Uchelgais Gogledd Cymru yw cyflawni cyfanswm pecyn buddsoddi o £1bn yn y rhanbarth dros y 10-15 mlynedd nesaf.

Mae prosiectau yn cael eu datblygu ar draws prif feysydd twf: bwyd-amaeth a thwristiaeth, gweithgynhyrchu gwerth uchel, cysylltedd digidol, tir ac eiddo ac ynni carbon isel. Y nod yw adeiladu economi mwy bywiog, cynaliadwy a gwydn yng ngogledd Cymru. O fewn ffiniau'r prosiect, mae Uchelgais Gogledd Cymru yn deall y bydd y buddsoddiad yn cael effaith carbon a allai effeithio ar dargedau rhanbarthol a chenedlaethol. Er mwyn cyfyngu ar hyn, mae wedi gosod targedau i dimau prosiect (a'u cadwyni gwerth) ar gyfer: carbon gweithredol sero net; 40% yn llai o garbon corfforedig o waelodlin opsiwn ffafriedig y prosiect ar y cam achos busnes amlinellol (ABA); a 10% enillion net ar gyfer bioamrywiaeth.

I gefnogi timau prosiect, a sicrhau agwedd gyson ar draws yr holl brosiectau, mae Uchelgais Gogledd Cymru wedi datblygu methodoleg asesu i dimau prosiect ei ddilyn. Ei ddiben yw rhoi canllaw cam-wrth-gam i bob prosiect Cynllun Twf i osod ffin asesu, meintoli gwaelodlin a lleihau effaith gyffredinol. Mae wedi cael ei strwythuro yn unol â champau datblygu achos busnes Trysorlys Ei Fawrhydi ac mae'n cyd-fynd â dull gwerthuso economaidd y Llyfr Gwyrdd.

Ar bob cam achos busnes, ymgymerir ag asesiadau carbon a bioamrywiaeth. Yn y camau cynnar, mae'r asesiadau hyn yn fwy ansoddol, yn dod yn fwy trwyadl a meintiol wrth i ddyluniad y prosiect gael ei lunio. Yn bwysig iawn, maent yn gofyn i brosiectau ddatblygu dealltwriaeth o'r effeithiau tu hwnt i ffin y prosiect - a bydd gwaelodlin prosiect ffurfiol yn cael ei gwblhau gan yr ABA.

Mae cymhwyso'r fethodoleg yn dal yn y dyddiau cynnar ac mae'n cael ei gyflwyno ar draws y portffolio llawn o brosiectau a hyn o bryd. Felly, mae angen profi ei effeithiolrwydd o gyflawni lleihad carbon ar draws y portffolio o hyd. Fodd bynnag, mae'r dull a ddilynnir yn dangos arweinyddiaeth wych gan Uchelgais Gogledd Cymru wrth gymhwyso egwyddorion datgarboneiddio craidd.